

## Datblygu cynllun gweithredu yn Itec

Er mwyn cynorthwyo i ddatblygu strategaeth newydd Digidol 2030 Itec, fe wnaethom ddefnyddio Jisc i hwyluso gweithdy adolygu digidol. Nod y gweithdy oedd nodi ysgogwyr ar gyfer datblygu darpariaeth ddigidol, blaenoriaethu meysydd i roi sylw iddynt ar draws ein busnes, archwilio'r meysydd blaenoriaeth hynny a llunio a chytuno ar gynllun gweithredu strategaeth ddigidol.

Roedd y gweithdy'n cynnwys cymysgedd gyfoethog o weithwyr Itec o bob rhan o'r sefydliad (gan gynnwys UDRh, Cyfarwyddwyr, Rheolwyr Cyrff Dyfarnu, cymorth TGCh a MI, Rheolwyr Ansawdd ac aseswyr / tiwtoriaid). Roedd yn bwysig bod gweithwyr o bob lefel o'r busnes ac amrywiaeth o arbenigwyr pwnc yn cyfranogi, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth gyfunol yn y busnes yn cyfrannu at ddatblygu ein Strategaeth Digidol 2030. Roedd ein dull cynhwysol yn sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth o'r agenda yn cael eu rhaedru ledled y busnes, a chychwyn newid diwylliant ar draws pob adran i gynorthwyo i gyflwyno ein strategaeth ddigidol yn y dyfodol.

Pwrpas y gweithdy oedd adolygu ein sefydliad presennol yn holistaidd - gweledigaeth a strategaeth, darpariaeth weithredol, systemau a phrosesau, cyfathrebu, datblygu staff, seilwaith a gallu digidol cyfredol - a gwneud penderfyniadau addas ynghylch y ffordd ymlaen ar sail ar ein sefyllfa bresennol. Fe wnaeth y trafodaethau ystyried y canlynol:

- Fframwaith strategol 2030 Llywodraeth Cymru;
- Fframwaith arolygu cyffredin Estyn;;
- Pecyn cymorth teithiau prentisiaethau Jisc; a
- Chanlyniadau adolygiad o *brofiad digidol dysgwyr* Itec (rhwng Ionawr 2018 ac Ebrill 2018), a oedd yn gofyn am adborth ar brofiad dysgwyr o gael gafael ar adnoddau, technegau a chwricwlwm digidol a'u defnyddio

Hwyluswyd y gweithdy adolygu digidol gan Dr Esther Barrett o Jisc ac roedd yn cynnwys y gweithgareddau strwythuredig canlynol:

- Nodi ysgogwyr busnes allweddol a manteision busnes strategaeth ddigidol i gynnal ffyrdd newydd o weithio mewn ffordd ddigidol; e.e. gwell profiad i ddysgwyr, gwasanaethau mwy hygyrch, ymgysylltu â chyflogwyr a chanlyniadau cynhwysiant a pherfformiad.
- Archwilio fframwaith [strategol 2030 Llywodraeth Cymru](#), [FfAC Estyn](#) a phecyn cymorth teithiau prentisiaethau [Jisc a sut y dylent / y gallent lywio ein strategaeth](#);
- Blaenoriaethu ystyriaethau (roedd 17/18 ym mhob adran ynghyd â lle ar gyfer ein gwaith paratoi, cynllunio, cyflwyno ac asesu ein hunain);
- Paru tensiwn ar gyfer yr ystyriaethau sy'n flaenoriaethau pennaf e.e. hawdd, anodd, braf eu cael, hanfodol ac ati;
- Mapio camau gweithredu'r ystyriaethau a ddewiswyd (e.e amgylchedd, sgiliau, gwybodaeth a chymhelliant

Roedd y cyfathrebu'n agored ac yn gyfranogol iawn drwy gydol y gweithdy, a chafwyd cymorth gan adnoddau cydweithredu fel Backchannel Chat a Lino, a gofnododd yr holl ddelweddau o'r diwrnod.

Daeth y gweithdy i ben trwy ddatblygu cynllun gweithredu mewnol i lywio datblygiad Strategaeth Digidol 2030 Itec gan ddefnyddio'r penawdau canlynol;

- Maes blaenoriaeth
- Beth sydd angen i ni ei wneud,
- Pryd
- Pwy
- Mesur Llwyddiant
- Sut fyddwn ni'n gwybod

Adolygwyd a chefnogwyd y cynllun gweithredu hwn gan Jisc, a ddilynodd hynny ag adroddiad a oedd yn amlygu'r blaenoriaethau allweddol a nodwyd ar y diwrnod ac fe wnaeth hefyd gynnig cyfres o argymhellion, gwasanaethau ac adnoddau. Roedd yr argymhellion ar gyfer gwasanaethau yn cynnwys: rhaglen arweinwyr digidol Jisc a [gwasanaeth cipolygon ar brofiadau digidol, gan gynnwys](#) canllawiau sydd ar gael (mae'r rhan fwyaf ohonynt ar gael am ddim neu wedi'u hariannu fel rhan o'ch contract Llywodraeth Cymru).

Y blaenoriaethau allweddol a nodwyd ar y diwrnod oedd:

- Gweledigaeth a strategaeth - sut ddylai'r sefydliad fod;
- Gwasanaethau cwmwl;
- Ymrwymiad i ddarparu adnoddau i newid rheolaeth a meithrin diwylliant digidol yn gyntaf;
- Cyfathrebu a datblygu staff;
- Ailymrwymo i systemau cyfredol, yn enwedig mewn perthynas â thystiolaeth amlgyfrwng ac e-Bortffolios; a
- UDRh i ganolbwyntio ar sgiliau rheoli a ffyrdd digidol o feddwl

Mae Itec bellach yn gweithio tuag at gyflawni ei garreg filltir allweddol gyntaf, sef cyflwyno system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid ddigidol, gan gynnwys elfen ar-lein, elfennau e-bortffolio ac IQA ar-lein, sy'n cysylltu'r holl ddata o fewn un system gyfannol erbyn mis Ebrill 2019.

Mae datblygiad y strategaeth dysgu digidol newydd wedi'i gynnwys yn SAR a QDP y cwmni fel strategaeth ar y cyd, sydd heb ei chyfyngu i raglenni neu gontractau penodol.

---